Bwletin Gwybodaeth

Effaith Gwasanaethau Gofal a Thrwsio

1. **Rhagair**

1.1 Mae Care & Repair Cymru yn deall yr amgylchedd economaidd anodd bydd pob sector yn wynebu dros y blynyddoedd nesaf, a'r gostyngiad anochel mewn refeniw fydd yn herio pob darparwr gwasanaeth yn y sector statudol a'r trydydd sector. Wrth gydnabod hynny, rydym wedi cymryd camau i sefydlu strwythur Grŵp a pherthynas gydweithredol gyda Cartrefi Cymunedol Cymru er mwyn sicrhau byddwn ni ein hunain yn darparu gwerth gwell am yr arian. Bydd cydweithredu'n helpu'r ddau gorff i gynnal a gwella gwasanaethau, a'n galluogi i weithio'n fwy effeithiol ar ran cleientau.

1.2 Er ein bod yn cydnabod yr heriau a bod cyllidebau'n sicr o leihau, credwn hefyd y dylwn ddangos i Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol bod ein gwasanaethau'n arbed arian, yn arbennig yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. O ganlyniad, gallai cynnal a hyd yn oed gynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau Gofal a Thrwsio helpu'r llywodraeth i ymateb i'r heriau o'n blaenau, a chefnogi'r achos yn gyffredinol. Nod y ddogfen hon yw dangos hynny.

1.3 Darperir gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn y 22 sir yng Nghymru, gan gynnig buddion arwyddocaol i bobl hŷn ym mhob cymuned.

1.4 Yn ogystal â'r buddion uniongyrchol i bobl hŷn, darperir buddion i'r gymuned yn gyffredinol, gyda gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn cefnogi rhwydweithiau gwasanaethau statudol, iechyd a gwirfoddol.

1.5 Ar ben hynny, bydd gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn cyfrannu at brif agendau polisi a strategol Llywodraeth y Cynulliad.

1.6 Bydd presenoldeb y 22 Asiantaeth Gofal a Thrwsio ym mhob sir, a'r gwaith mewn partneriaeth strategol â chyrff iechyd, gofal cymdeithasol & tai yn deillio o hynny, yn arwain at ddatblygu projectau arloesol yn lleol. Bydd hynny'n dwyn gwerth ychwanegol sylweddol ac atebion lleol i broblemau lleol, gyda modd dyblygu rhai ohonynt ar draws y wlad.

2. **Buddion er lles pobl hŷn**

2.1 Bob blwyddyn, bydd gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn helpu tua 50,000 person hŷn, sef oddeutu 167 ar ran pob aelod staff Gofal a Thrwsio. Bydd 60% o'r bobl hyn dros 75 oed (30,000 person hŷn), gyda'r mwyafrif mewn categori blaenoriaeth cymdeithasol.

2.2 Hunan gyfeiriadau yw dros 40% o'n cleientau (20,500), sy'n golygu *'nad ydynt yn debyg o fod yn y system'*. Hynny yw, ddim yn derbyn gwasanaethau tai, iechyd neu gymdeithasol. Mae'n debyg fod y categori hwn yn cynrychioli mesurau atal damweiniau sylweddol.

2.3 Un o'r buddion eraill o wasanaeth bach, hyblyg a dwys yw gallu tdargedu grwpiau anodd eu cyrraedd ac eithriedig, sef grwpiau oedran, bregus, ethnig a gwledig.

2.4 Un o brif gryfderau Gofal a Thrwsio yw'r drefn o ymweld â chartrefi, gyda thua 40% (20,000) o gleientau'n derbyn gwasanaeth yn eu cartrefi. O ganlyniad, seilir asesiad unigolyn ar ddealltwriaeth glir o'i gartref. Cwblhawyd 40% o ymholiadau cleientau a 47% o geisiadau gwasanaeth (33,190 achos) wrth ddilyn trefn yn seiliedig ar anghenion person.

2.5 Elfen unigryw gwasanaeth ymweld â chartrefi Gofal a Thrwsio yw ei fod yn cyfuno dull asesu unigolion gofal cymdeithasol ag arbenigedd technegol ym maes tai er mwyn sicrhau'r canlyniadau iawn ar gyfer cleientau.

2.6 Darparwyd y gwasanaethau isod gan Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn 2008/9:

- 20,000 ymweliad ac asesiad cartref yn arwain at drefnu gwasanaethau ac atebion unigol ar gyfer y cleientau hynny
- 15,473 addasiad RRAP, gyda 10,163 ohonynt yn helpu pobl i osgoi mynd i ysbyty, 4,915 yn hwyluso gadael ysbyty. Amser cyfartalog o'r cyfeiriad i gwblhau gwaith yn 10 diwrnod yn unig**. Amcangyfrifir arbed £7.50 am bob £1 o wariant**
- 21,095 DFG ac addasiadau tai eraill wedi'u hwyluso
- 1,469 cleient wedi derbyn cymorth ar ffurf mesurau atal cwympiadau
- 2842 gosodiad telegofal
- 1177 person hŷn wedi derbyn cyngor a gwybodaeth, gan gynyddu hawliadau budd-daliadau gymaint â £2.7 miliwn
- 3788 asesiad tlodi tanwydd/effeithiolrwydd ynni ar gyfer HEES a grantiau eraill

- £13.5 miliwn o fesurau cynnal a chadw, diogelwch, trwsio ac addasu etc wedi'u trefnu ac arolygu, sef oddeutu 61,500 tasg, am bris cyfartalog o £220 per tasg

- 2,860 client wedi derbyn asesiad er mwyn parhau i fyw yn eu cartrefi

3. Buddion cymunedol

3.1 Mae Asiantaeth Gofal a Thrwsio ym mhob sir yng Nghymru. Mae cyfeiriad strategol pob Asiantaeth yn destun dylanwad cryf pwyllgor cynllunio busnes strategol, yn cynnwys uwch swyddogion tai, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd sy'n helpu i gynllunio gwasanaethau Gofal a Thrwsio ar sail blaenoriaethau cenedlaethol a chyllid craidd, ynghyd ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

3.2 Yn ôl ymchwil cenedlaethol a phrofiad hir dymor gwasanaethau Gofal a Thrwsio, gall buddsoddiad mewn tasgau bach, brys wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl, ac osgoi atebion a gwasanaethau drud yn y dyfodol. Mae'r ymchwil yn cynnwys:

- Yn ôl British Medical Journal 'atal 1 damwain am bob 32 pecyn mesurau diogelwch a osodir'
- Rheiliau llaw yn gostwng cwympiadau 3.1%
- Canlyniadau Transport Support Laboratory yn awgrymu mai cost gyfartalog damwain mewn cartref yw £9,460
- Pris cyfartalog trin clun wedi torri yw £28,665.

3.3 Gwasanaethau ataliol, yn ymateb i anghenion cleientau, holistaidd a chefnogi dewis personol ac annibyniaeth, yn arbed arian i wasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol **(hynny yw, cadw pobl allan o ysbytai a chartrefi gofal).**

3.4 Amcangyfrifon arbed arian:

a) Arbediad blynyddol yn achos pob gwasanaeth Gofal a Thrwsio, amcangyfrif ceidwadol ar ddim ond 2.5% o gleientau:

- 48,492 x 2.5% x 52 wythnos x £450 (pris cyfartalog 1 wythnos mewn cartref gofal) = **£26.37 miliwn.**

b) Addasiadau brys (RRAP) 15,473 cleient:

- Rhyddhau o ysbyty
  491 x 378 x 10 = £1, 856,000
  llai 491 x 118 = £58,000
  Arbed = £1,798,000

- Osgoi mynd i ysbyty
  1016 x 378 x 10 = £3,840,000
  llai 1016 x 118 = £120,000
  Arbed = £3,720,000

- Atal damweiniau
  1016 x 9,460 = £9,611,000
  llai 1016 x 118 = £120,000
  Arbed = £9, 491, 000

Rhagdybiaethau

i. Ystyried 491 tasg RRAP wrth gyfrif ffigur gadael ysbytai (o'r cyfanswm o 4915, sef tua 10% yn arwain yn uniongyrchol at ryddhau o ysbyty)
ii. Ystyried 1016 tasg RRAP wrth gyfrif ffigur osgoi mynd i ysbyty (o'r cyfanswm o 10,163, sef tua 10% yn uniongyrchol yn atal rhag mynd i ysbyty)
iii. Pris cyfartalog o £378 y diwrnod am aros mewn ysbyty
iv. Arhosiad cyfartalog 10 diwrnod
v. Llai costau RRAP (£118 per achos RRAP ar gyfartaledd)
vi. £9460 costau iechyd cyfartalog damwain yn y cartref

Ar sail y cyfrifiadau hyn, byddai rhagdybiaeth geidwadol - bod 10% o achosion RRAP yn arwain yn uniongyrchol at adael ysbyty'n gyflymach ac yn osgoi mynd yno yn y lle cyntaf - yn gallu arbed £15,009,000 i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae hynny'n cyfateb i arbed £7.50 ym maes iechyd am bob £1 a fuddsoddir yn RRAP.

4. Buddion strategol i Lywodraeth y Cynulliad

4.1 Bydd cyfraniadau penodol gan Gofal a Thrwsio, a chanlyniadau gwasanaethau Gofal a Thrwsio, yn gwneud cyfraniad sylweddol at lawer o flaenoriaethau, polisïau ac agendau strategol Llywodraeth y Cynulliad, sef:

- Gwella Bywydau & Cymunedau – Cartrefi Cymru (2010)
- Strategaeth Pobl Hŷn (2008-2013)
- Cynllunio am Oes (2005-2015)
- Bywydau Llawn, Cymunedau Cefnogol (2008-2018)
- Byw'n dda – Byw'n Annibynnol (2009)
- Ystyried Pawb – Strategaeth Cynhwysiad Ariannol (2009)
- Dal i Aros: Gwasanaethau Cynnal ac Addasu Cartrefi ar gyfer pobl hŷn Cymru (Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Llywodraeth y Cynulliad) (2009)
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn (2006)
- Cynllun Gweithredu Dementia Cenedlaethol (yn destun ymgynghoriad)
- Strategaeth Tlodi Tanwydd (ymgynghori ar ddiweddariad)

5. Arloesi & Partneriaethau Lleol

5.1 Mae'r tabl dilynol yn crynhoi gwasanaethau craidd Gofal a Thrwsio, RRAP ac enghreifftiau o gynlluniau diweddar a chyfredol. Mae hefyd yn cynnwys canlyniadau'r gwasaanethau a chynlluniau hynny.

Bwletin Gwybodaeth

GWASANAETHAU GOFAL A THRWSIO

GWASANAETH/ PROJECT GOFAL A THRWSIO	CANLYNIADAU	EFFAITH AR IECHYD, LLES A GOFAL CYMDEITHASOL
1. **Gwasanaeth craidd Gofal a Thrwsio** Asesiad gan weithiwr achosion yng nghartref y cleient. Oddeutu 20,000 person hŷn bob blwyddyn, gan drefnu pecynnau gwasanaeth a phrojectau unigol, a galluogi'r person i barhau i fyw yn ei gartref ei hun.	20,000 ymweliad ac asesiad yn y cartref, gan ddarparu atebion a gwasanaethau ar gyfer y cleientau hyn Trefnu 21,095 DFG ac addasiad bach 1,469 cleient wedi derbyn mesurau atal cwympiadau 3788 asesiad tlodi tanwydd/ effeithiolrwydd ynni ar gyfer HEES a grantiau eraill 2,860 cleient wedi derbyn asesiad er mwyn aros yn eu cartrefi	• Osgoi problemau iechyd cartrefi gwael • Mesurau atal damweiniau, llithro, baglu a chwympo • Gwella diogelwch cartrefi pobl hŷn, gan ostwng troseddu a phoeni am droseddu • Gostwng yr angen am ofal preswyl • Gostwng achosion mynd i'r ysbyty • Hwyluso gadael ysbyty
2. **Rhaglen addasiadau brys (RRAP)** Rhaglen gwerth £2.1m yn 2010/11. Canolbwyntio ar dasgau bach, cyflym i hwyluso gadael ysbyty, osgoi mynd i ysbyty, a gwaith amrywiol arall a gyfeirir gan amrediad o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.	15,473 addasiad RRAP yn 2008/9, gyda 10,163 yn osgoi ymweliad ag ysbyty, 4915 wedi hwyluso gadael ysbyty Amser cyfartalog o gyfeiriad i gwblhau gwaith, dim ond 10 diwrnod Amcangyfrif bydd yn arbed £7.50 wrth fuddsoddi pob £1	• Gostwng amser mewn ysbytai • Hwyluso gadael ysbytai • Gostwng nifer achosion ysbytai • Buddsoddi £100K yn RRAP yn cyfateb i ostyngiad o £750,000 mewn costau trin ac aros mewn ysbytai, neu ofal preswyl (a vice versa, pob gostyngiad o £100K yn arwain at gostau iechyd ychwanegol o £750,000)

3. Project Adref o'r ysbyty Peilot mewn dau ysbyty cymunedol, Conwy & Caerffili. Darparu gwybodaeth wrth welyau cleifion a chysylltu'n gynharach â gwasanaethau Gofal a Thrwsio. Nod yw gwella ymwybyddiaeth a darpariaethau o ran beth fydd angen i hwyluso gadael ysbyty'n gyflymach. Partneriaeth gyda gweithwyr iechyd llinell flaen.	Dosbarthu 418 pecyn yn ardaloedd Conwy & Caerffili yn 2008/9.	• Gwella ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau Gofal a Thrwsio ar amserau allweddol i'r cleient a darparwyr statudol • Gostwng yr amser bydd pobl yn aros mewn ysbytai • Hwyluso gadael ysbyty • Arbed arian ar gyllidebau iechyd
4. Ysbyty yn y cartref (Gwent Frailty) Model gofal cymunedol integreiddiedig ar gyfer pobl hŷn bregus, sy'n dal i ddatblygu. Y nod yw osgoi mynediad i ysbyty pan fydd argyfwng, oherwydd tystiolaeth bod pobl hŷn eiddil yn tueddu i ddod yn ddibynnol yn gyflym iawn ar ôl cyfnod mewn ysbyty.	Gofal a Thrwsio yn gallu darparu atebion cyflym ar gyfer gwaith angenrheidiol mewn cartrefi pobl hŷn er mwyn osgoi mynediad i ysbyty. 5 Asiantaeth Gofal a Thrwsio yn ardal Gwent yn trafod y project hwn ar hyn o bryd, gan gydweithio a chyfuno adnoddau cyfalaf (fel Asiantaethau Gofal a Thrwsio) i gefnogi'r project yn gyffredinol.	• Gostwng nifer y bobl yn mynd i ysbytai • Cynyddu nifer y bobl yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi • Gostwng dibyniaeth pobl ar eraill
5. Cynnal a chadw cartrefi Project peilot yn ardal Penybont. Ar hyn o bryd yn crynhoi canllawiau arferion da i'w rhannu gydag Asiantaethau drwy'r wlad. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys asesiad cartref blynyddol, addasu amserlenni gwaith yn ôl anghenion cleientau, pecyn yswiriant cartref cynhwysfawr, gwasanaeth argyfwng 24/7.	2008/9 - 140 cyfeiriad ac asesiad cartref. Llunio 48 trefnlen waith, cwblhau gwaith cynnal gwerth £101,000.	• Cynnal a chadw i osgoi problemau mawr yn ddiweddarach • Gwella diogelwch ac atal damweiniau mewn cartrefi • Gostwng nifer y bobl yn mynd i ysbytai • Arbed arian ar gyllidebau iechyd

2. Effeithiolrwydd ynni cartrefi Bydd Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaethau cyfeirio a gwybodaeth gwerthfawr sy'n helpu i sicrhau bydd pobl hŷn, sydd fwyaf angen cartrefi cynnes, yn derbyn cymorth cymwys. Bydd gweithwyr achosion yn eistedd mewn ystafelloedd byw 20,000 o bobl hŷn bob blwyddyn ac yn trafod y grantiau a chynlluniau disgownt sy'n agored iddynt.	Yn ystod gaeaf 2008/9 cofnodwyd 30,000 mwy o farwolaethau o bobl 75+ o gymharu â gweddill y flwyddyn. Dros yr un cyfnod roedd 7000 mwy o farwolaethau o blith pobl dan 75. Er mwyn helpu i daclo hynny, trefnodd Gofal a Thrwsio asesiad a chyfeiriad tlodi tanwydd a HEES ar gyfer 3788 person. Yn ogystal, hwyluswyd codiadau budd-daliadau ar gyfer 1177 person, gan arwain at hawlio £2,718,249 ychwanegol gan bobl hŷn bregus, a'u helpu i gadw eu cartrefi'n gynnes.	• Gostwng nifer y bobl yn mynd i ysbytai yn dioddef o hypothermia a salwch bronciol a resbiradol • Gostwng lefelau tlodi tanwydd ymhlith pobl hŷn • Arbed arian ar gyllidebau iechyd
6. Gwasanaethau dementia 16 o'r 22 Asiantaeth yn datblygu gwasanaethau i gefnogi pobl yn dioddef o dementia a'u cynhalwyr.	Datblygu'r gwasanaeth gyda grant craidd penodol gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010/11. Care & Repair Cymru yn datblygu canllaw cryno ar y cyd ag Asiantaethau	Gwella cydnabyddiaeth ac ansawdd gwasanaethau tai a gofal ar gyfer pobl yn dioddef o dementia a'u cynhalwyr.